Y Comisiwn Etholiadol

Etholiad Senedd Cymru

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 2b o 6 – Sefyll yr etholiad rhanbarthol

Chwefror 2021

Mae'r ddogfen hon yn gymwys at etholiad rhanbarthol ar gyfer Senedd Cymru yn unig. Nid yw'n gymwys at yr etholiad etholaethol ar gyfer Senedd Cymru. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau mewn perthynas ag etholiadau etholaethol Senedd Cymru ac etholiadau eraill yn y DU ar ein gwefan trwy: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol: rhestrau pleidiau 4
Cwblhau eich papurau enwebu 5
Cyflwyno eich papurau enwebu 10
Pwy all gyflwyno papurau enwebu? 10
Sut y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno? 10
Tynnu'n ôl 16
Beth sy'n digwydd ar ôl i enwebiadau gau? 17
Penodi asiant etholiadol ac asiantiaid eraill 18
Pwy all fod yn asiant etholiadol? 18
Penodi asiant etholiadol 19
Diddymu penodiad asiant etholiadol 20
Is-asiantiaid 20
Penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif 21
Marwolaeth ymgeisydd 23

Gwybodaeth hanfodol: ymgeiswyr nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol 24
Cwblhau eich papurau enwebu 25
Y ffurflen enwebu 26
Caniatâd i enwebu 28
Cyflwyno eich papurau enwebu 29
Beth sy'n digwydd ar ôl i enwebiadau gau? 35
Penodi eich asiant etholiadol ac asiantiaid eraill 36
Pwy all fod yn asiant etholiadol? 37
Penodi asiant etholiadol 37
Diddymu penodiad asiant etholiadol 38
Is-asiantiaid 39
Penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif 40
Marwolaeth ymgeisydd 41

Gwybodaeth atodol 42
Enw(au) cyffredin 42
Marwolaeth ymgeisydd 43
Os bydd yr etholiad bellach yn un diwrthwynebiad 43
Os bydd yr etholiad yn un a ymleddir o hyd 44

Mae dau fath gwahanol o ymgeisydd rhanbarthol yn etholiadau Senedd Cymru: y rhai sydd wedi'u henwebu gan blaid wleidyddol i sefyll ar restr y blaid, a'r rhai sy'n sefyll fel ymgeiswyr unigol.

Mae rhan gyntaf y ddogfen hon yn cynnwys canllawiau i Swyddog Enwebu pleidiau gwleidyddol cofrestredig ar gyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholiad. Mae ail ran y ddogfen hon yn cynnwys canllawiau ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol.

Yn rhan gyntaf y ddogfen, byddwn yn defnyddio ‘chi’ i gyfeirio at y Swyddog Enwebu. Yn ail ran y ddogfen, byddwn yn defnyddio ‘chi’ i gyfeirio at ymgeisydd nad yw'n sefyll ar ran plaid wleidyddol.

I gael rhagor o wybodaeth am y derminoleg a ddefnyddir yn y canllaw hwn, gweler ein Dogfen drosolwg.

Gwybodaeth hanfodol: rhestrau pleidiau

Mae'r rhan hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Enwebu sy'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholiad fel aelodau rhanbarthol o Senedd Cymru.

Darperir gwybodaeth atodol yng nghefn y ddogfen hon, sydd ond yn berthnasol o bosibl i rai Swyddogion Enwebu ac ymgeiswyr rhestr. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Mae gwybodaeth hanfodol ar gyfer ymgeiswyr unigol mewn etholiad rhanbarthol nad ydynt yn sefyll ar ran plaid i'w gweld o baragraff **1.92** ymlaen.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Gweler ein Dogfen drosolwg am fanylion cyswllt.

Trwy'r ddogfen hon, rydym yn defnyddio ‘rhaid’ wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau sydd yn arfer da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Rydym wedi cynnwys dyddiadau cau perthnasol drwy'r ddogfen hon, ond gallwch hefyd weld amserlen etholiad ar wahân yn nodi'r holl ddyddiadau allweddol ar ein gwefan.

O ran etholiadau trefnedig, byddwn yn cyhoeddi amserlen etholiad sy’n cynnwys y dyddiadau cau penodol ar gyfer y pleidleisiau hynny, y gallwch ei llwytho o’n gwefan.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu data personol yn ei gyfanrwydd.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae’r ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol yn effeithio arnoch chi.

Cwblhau eich papurau enwebu

1.1 Fel Swyddog Enwebu plaid wleidyddol gofrestredig gallwch gyflwyno rhestr o hyd at 12 o ymgeiswyr i sefyll etholiad rhanbarthol. Cewch benodi un neu fwy o bobl eraill i wneud hyn a chwblhau unrhyw rai o'ch swyddogaethau ar eich rhan, ond mae'n rhaid i'r penodiad gael ei wneud yn ysgrifenedig a'i gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.2 Rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar gofrestr o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn yn http://search.electoralcommission.org.uk/cymraeg a bod wedi'i rhestru'n blaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru.

1.3 Er mwyn bod yn ymgeisydd rhanbarthol yn etholiad Senedd Cymru, bydd angen i chi, neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar eich rhan, gyflwyno set o bapurau enwebu sydd wedi'u cwblhau i'r man a nodwyd gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol perthnasol, ynghyd ag ernes o £500, erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Pennir y dyddiad cau hwn yn ôl y gyfraith ac ni ellir ei newid am unrhyw reswm.

1.4 Nodir y dyddiad pan allwch ddechrau cyflwyno papurau enwebu, yn ogystal â'r amseroedd a'r man cyflwyno, yn yr hysbysiad etholiad swyddogol a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.5 Rhaid i chi gyflwyno dau bapur enwebu er mwyn i'r enwebiad ar restr y blaid fod yn ddilys:

- ffurflen enwebu rhestr y blaid (mae'r ffurflen i'w defnyddio wedi'i rhagnodi o dan y gyfraith), sydd hefyd yn awdurdodi rhestr y blaid i ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad cofrestredig ac arwyddlun, os dymunir hynny
- ffurflen cyfeiriad cartref ar gyfer pob ymgeisydd ar y rhestr
- caniatâd enwebu ar gyfer pob ymgeisydd ar y rhestr (gweler paragraffau **1.11**)

1.6 Gallwch gael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Rhoddir manylion cyswllt ar ein

Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu data personol yn ei gyfanrwydd.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae'r ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol yn effeithio arnoch chi.

Y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad yw 25 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

gwefan. Fel arall, mae'r Comisiwn wedi llunio set o bapurau enwebu y gallwch ei defnyddio.

1.7 Os na fyddwch chi (neu rywun a benodwyd gennych yn ysgrifenedig) yn gallu cwblhau'r ffurflen enwebu, gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol eich helpu trwy baratoi'r ffurflen i chi ei llenwi. Dylech holi'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol cyn gynted â phosibl i weld pa gymorth a all fod ar gael.

1.8 Efallai y gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd gynnig bwrw golwg anffurfiol dros eich papurau enwebu a gwblhawyd cyn i chi eu cyflwyno. Dylech gael ar wybod gan yr RRO p'un a ydynt yn bwriadu cynnig gwiriadau anffurfiol.

1.9 Sylwer bod yn rhaid i unrhyw wybodaeth a rowch ar y papurau enwebu fod yn wir hyd eithaf eich gwybodaeth (neu hyd eithaf gwybodaeth y sawl a benodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar eich rhan). Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir ar bapurau enwebu. Gallai rhoi datganiad anwir annilysu ethol ymgeiswyr ar restr y blaid, ac arwain at ddirwy anghyfyngedig a/neu ddedfryd o garchar hefyd.

Y ffurflen enwebu

1.10 Rhaid i'r ffurflen enwebu gael ei chwblhau yn Gymraeg neu Saesneg. Rhaid i'r ffurflen gynnwys:

- **Enw llawn pob ymgeisydd** ar y rhestr yn y drefn y byddant yn cael eu hethol, hyd at uchafswm o 12 o ymgeiswyr. Nodwch eu cyfenw ac enwau eraill yn llawn. Gallai defnyddio blaenlythrennau'n unig arwain at wrthod papur enwebu'r ymgeisydd. Hefyd, peidiwch â defnyddio rhagddodiaid fel Mr, Mrs, Dr neu Cyngh. fel rhan o'r enw. Mae'r un peth yn wir am ôl-ddodiaid. Fodd bynnag, os oes gan ymgeisydd ar restr y blaid deitl, gall ddefnyddio hwn fel ei enw llawn. Er enghraifft, os mai Joseph Smith yw ei enw gwirioneddol, ond ei deitl etifeddol yw Joseph Avon, gall ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel ei enw llawn.

- **Disgrifiad**. Rhaid i'r ffurflen enwebu gynnwys disgrifiad wedi'i awdurdodi gennych chi (neu gan rywun a benodwyd yn ysgrifenedig ar eich rhan). Gallwch awdurdodi defnyddio naill ai enw'r blaid a gofrestrwyd â'r Comisiwn neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid. Gellir defnyddio naill ai'r fersiwn Gymraeg, y fersiwn Saesneg neu'r ddwy fersiwn o enw'r blaid neu'r disgrifiad, cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru â ni. Caiff enw'r blaid neu'r disgrifiad dethol ei argraffu wrth ochr manylion rhestr y blaid ar y papur pleidleisio.

Gellir gweld enwau pleidiau cofrestredig a disgrifiadau cofrestredig ar ein cofrestr ar-lein. http://search.electoralcommission.org.uk/cymraeg

- Os hoffech ddefnyddio enw cofrestredig plaid nad yw'n cynnwys 'Welsh' neu 'Cymru', yna gellir ychwanegu 'Welsh' neu 'Cymru' at enw cofrestredig y blaid yn y blwch disgrifiad neu ar y papur pleidleisio.

  Ni all dwy blaid wleidyddol gyflwyno rhestr ranbarthol ar y cyd.

  Dylech fod yn arbennig o ofalus wrth gwblhau'r meysydd disgrifiadau ar y ffurflen enwebu. Rhaid i enw'r blaid neu'r disgrifiad dethol a ddefnyddir ar y ffurflen enwebu gyfateb yn union (heb gynnwys y rhagddodiad 'Welsh' neu'r ôl-ddodiad 'Cymru') i enw'r blaid/disgrifiad ar gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn. Os nad ydyw, gwrthodir yr enwebiad cyfan.

  Awdurdodiad i ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad cofrestredig. Rhaid ichi gyflwyno, ochr yn ochr â'r papurau enwebu eraill, dystysgrif sy'n awdurdodi defnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad fel y nodir ar y ffurflen. Rhaid i chi (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig ar eich rhan) lofnodi hon. Pan roddir enw'r parti cofrestredig ac nad yw'r enw'n cynnwys "Welsh" neu "Cymru", yna gellir ategu enw'r parti cofrestredig gyda "Welsh" neu "Cymru".

  Os ydych wedi penodi rhywun arall i gyflawni'r swyddogaeth hon ar eich rhan, rhaid cyflwyno copi o'r penodiad ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

- **Llofnod un llofnodwr**. Gall y llofnodwr fod yn ymgeisydd ar restr y blaid neu'n rhywun arall. Os bydd rhywun arall yn llofnodi'r ffurflen, bydd angen i'r unigolyn hwnnw hefyd roi ei enw llawn a'i gyfeiriad.

1.11 Mae'r canlynol yn ddewisol:

- **Enw cyffredin**. Os yw ymgeisydd rhestr yn defnyddio enw sy'n wahanol i unrhyw enw(au) cyntaf neu gyfenw sydd ganddo ac mae'n dymuno i'r enw hwnnw ymddangos ar y papur pleidleisio, bydd angen nodi hyn ar y ffurflen enwebu. Rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraff **1.175**.

Cais i ddefnyddio arwyddlun ar y papur pleidleisio

Gallwch weld neu lawrlwytho arwyddluniau o'n cofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol: http://search.electoralcommission.org.uk/cymraeg/

1.12 Gallwch chi neu'r sawl a benodwyd i weithredu ar eich rhan hefyd wneud cais i un o arwyddluniau swyddogol y blaid gael ei argraffu ar y papur pleidleisio.

1.13 Rhaid i'r cais am arwyddlun gael ei gynnwys ar y dystysgrif awdurdodi. Dylai'r cais nodi enw'r blaid wleidyddol a'r disgrifiad o'r arwyddlun i'w ddefnyddio, fel y maent wedi eu rhestru ar gofrestr ar-lein y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol. Ni ellir addasu arwyddluniau cofrestredig mewn unrhyw fodd.

1.14 Os oes gan y blaid fwy nag un arwyddlun, dylai'r cais nodi disgrifiad o'r arwyddlun i'w ddefnyddio, fel y'i rhestrir ar gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn. Ni ellir newid arwyddluniau cofrestredig mewn unrhyw ffordd.

Ffurflen cyfeiriad cartref

1.15 Rhaid i'r papur enwebu gael ei hanfon ynghyd â ffurflen cyfeiriad cartref ar gyfer pob ymgeisydd.

1.16 Mae rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref nodi cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn llawn.

1.17 Y cyfeiriad cartref:

- rhaid iddo beidio â chynnwys talfyriadau
- rhaid iddo fod eich cyfeiriad cartref cyfredol
- rhaid iddo beidio â bod yn gyfeiriad busnes (heblaw eich bod yn cynnal busnes o'ch cartref)

1.18 Nid oes angen i'r cyfeiriad cartref fod yn yr un etholaeth Senedd y mae'r ymgeisydd yn bwriadu sefyll ynddi.

1.19 Gall yr ymgeisydd ddewis i'w cyfeiriad cartref beidio ag ymddangos ar y datganiad personau a enwebwyd.

1.20 Os felly, rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref gynnwys, yn ogystal â'ch enw llawn a'ch cyfeiriad:

- Datganiad, a lofnodwyd gan yr ymgeisydd, sy'n datgan eich bod yn gofyn na chaiff eich cyfeiriad cartref ei gyhoeddi
- Etholaeth Senedd Cymru y mae eich cyfeiriad cartref, neu os yw eich cyfeiriad y tu allan i Gymru, ym mha etholaeth Seneddol (Senedd y DU); neu os yw eich cyfeiriad tu allan i'r DU, ychwanegwch enw'r wlad.
- Os yw eich cyfeiriad cartref y tu allan i'r DU, enw'r wlad y mae eich cyfeiriad cartref ynddi

Caniatâd i enwebu

1.21 Rhaid i bob ymgeisydd ar restr plaid roi ei ganiatâd ffurfiol i'w enwebiad yn ysgrifenedig. Rhagnodir cynnwys y ffurflen caniatâd i enwebu o dan y gyfraith. Ar y ffurflen, gofynnir i ymgeiswyr nodi eu bod yn gymwys ac nad ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag sefyll. Rhaid i ymgeiswyr hefyd nodi:

Rhoddir gwybodaeth am amodau cymhwyso ac anghymhwyso yn Rhan 1: A allwch sefyll etholiad?

- eu dyddiad geni
- cyfeiriad yng Nghymru, a allai fod yn gyfeiriad cartref iddynt (a thybir mai hwn fydd cyfeiriad eu swyddfa os byddant yn gweithredu fel asiant etholiadol y blaid am nad oes un wedi'i benodi. Rhoddir rhagor o wybodaeth am asiantiaid etholiadol ym mharagraff **1.60**)
- nad ydynt yn ymgeisydd unigol nac yn ymgeisydd rhestr plaid yn yr un etholiad mewn unrhyw ranbarth arall.

1.22 Ni chaiff ymgeiswyr lofnodi'r ffurflen ganiatâd yn gynharach na mis cyn y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno'r papurau enwebu.

1.23 Gellir cyflwyno'r cydsyniad i'r enwebiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn bersonol, neu ei gyflwyno'n electronig i gyfeiriad e-bost at y perwyl hwnnw.

1.24 Gweler paragraff **1.25** ymlaen am arweiniad ar sut i gyflwyno papurau enwebu.

1.25 Er nad yw absenoldeb caniatâd i enwebu ar gyfer ymgeisydd ar restr y blaid yn annilysu enwebiad rhestr plaid, os na chaiff ffurflen ganiatáu ar gyfer ymgeisydd penodol ar y rhestr ei chyflwyno erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn tynnu'r unigolyn oddi ar y rhestr.

Cyflwyno eich papurau enwebu

1.26 Rhaid i'r ffurflen enwebu, gan gynnwys y ffurflenni cyfeiriad cartref, y ffurflenni cydsyniad i'r enwebiad, a'r tystysgrif awdurdodi a ffurflen gais arwyddlun gael eu cyflwyno i'r man a nodwyd ar yr hysbysiad etholiad erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Fel Swyddog Enwebu, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y papurau enwebu yn cael eu cyflwyno yn y ffordd gywir ac ar amser.

Pwy all gyflwyno papurau enwebu?

1.27 Dim ond chi, fel Swyddog Enwebu (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar eich rhan), a gaiff gyflwyno'r ffurflen enwebu.

1.28 Ni chyfyngir ar bwy all gyflwyno'r ffurflenni caniatâd i enwebu, ond dylech sicrhau eich bod chi, yr ymgeisydd perthnasol neu rywun rydych chi neu'r ymgeisydd yn ymddiried ynddo yn gwneud hyn, fel y gallwch sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar amser.

Sut y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

1.29 Rhaid i'r ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref gael eu cyflwyno'n bersonol. Ni ellir eu postio, ffacsio, e-bostio na defnyddio unrhyw gyfrwng electronig arall.

1.30 Gellir cyflwyno'r cydsyniad i'r enwebiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn bersonol, neu ei gyflwyno'n electronig i gyfeiriad e-bost at y perwyl hwnnw. Lle bo ymgeisydd dramor, ac mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ystyried ei bod yn anymarferol i'r cydsyniad gael ei anfon yn ysgrifenedig. Os felly, gellir ei gyflwyno'n electronig.

1.31 Gellir cyflwyno'r tystysgrif awdurdodi drwy'r post ond ni ellir ei chyflwyno drwy ffacs, e-bost nac unrhyw fodd electronig arall.

1.32 Rhaid cyflwyno **fersiwn wreiddiol** pob papur a gwblhawyd. Byddai ffurflen cydsynio i'r enwebu a anfonwyd fel atodiad e-bost i'w hargraffu, er enghraifft, yn ei gwneud yn 'gopi o ddogfen' ac nid y ddogfen wreiddiol.

Pryd y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

1.33 Dylid cyflwyno papurau enwebu cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cyfle i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fwrw golwg anffurfiol drostynt a rhoi digon o amser i chi gyflwyno papurau enwebu newydd os bydd y set gyntaf yn cynnwys unrhyw wallau.

1.34 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cadarnhau'r union fanylion o ran pryd a ble y gellir cyflwyno papurau enwebu ar yr hysbysiad etholiad swyddogol. Cyhoeddir yr hysbysiad etholiad heb fod yn hwyrach na 25 diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyhoeddir yr hysbysiad etholiad ar wefan awdurdod lleol y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, yn ogystal ag ar wefannau'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth.

1.35 Gallwch gyflwyno papurau enwebu rhwng 9am a 5pm ar unrhyw ddiwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad tan 4pm ar y 19^{eg} diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.36 Dylech gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol cyn gynted â phosibl er mwyn gweld beth yw'r trefniadau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.

1.37 Os byddwch, ar ôl cyflwyno'r papurau enwebu, yn penderfynu nad ydych yn dymuno i restr y blaid sefyll yr etholiad mwyach, cewch dynnu rhestr lawn y blaid yn ôl, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Gallwch hefyd dynnu enw un neu fwy o'r ymgeiswyr oddi ar restr y blaid. Gall ymgeiswyr unigol sydd ar y rhestr hefyd dynnu'n ôl, ar yr amod eu bod yn gwneud hynny erbyn yr un dyddiad cau. I gael rhagor o fanylion am dynnu'n ôl, gweler paragraff **1.53**

Yr ernes

1.38 Er mwyn i'r enwebiad fod yn ddilys, rhaid rhoi'r swm o £500 yn ernes i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, sef 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Gellir talu'r ernes gan ddefnyddio:

- arian parod (punnoedd Sterling yn unig)
- drafft bancwr yn y DU

Swm yr ernes yw £500, ni waeth sawl enw sydd ar y ffurflen enwebu.

1.39 Gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd dderbyn ernes ar ffurf siec cymdeithas adeiladu, cerdyn debyd neu gredyd neu drosglwyddiad electronig. Fodd bynnag, gall wrthod gwneud hynny. Os ydych yn ystyried talu'r ernes yn un o'r ffyrdd hyn, dylech holi'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol cyn gynted â phosibl a yw'r dull o dalu'n dderbyniol.

1.40 Os bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn caniatáu i'r ernes gael ei thalu drwy gerdyn debyd neu gredyd, gall y cwmni dan sylw godi ffi am y trafodyn. Os felly, bydd angen i chi dalu unrhyw ffioedd ychwanegol yn ogystal â'r ernes o £500.

1.41 Rhaid i'r ernes gael ei thalu gennych chi, fel y Swyddog Enwebu, gan rywun a benodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar eich rhan, gan un o'r ymgeiswyr rhestr, neu gan rywun sy'n gweithredu ar ran un o'r ymgeiswyr rhestr.

1.42 Os byddwch yn talu'r ernes eich hun, rhaid i chi hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol am hynny. Rhaid i unrhyw

un arall sy'n talu'r ernes roi ei enw a'i gyfeiriad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar adeg ei thalu (oni bai mai'r unigolyn hwnnw yw asiant etholiadol rhestr y blaid a bod ei enw a'i gyfeiriad wedi cael eu rhoi i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn flaenorol).

1.43 Ad-delir ernes pleidiau a gaiff fwy na 5% o gyfanswm y pleidleisiau dilys yn y rhanbarth. Bydd y pleidiau hynny a gaiff 5% neu lai o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys yn colli eu hernes.

Archwilio papurau enwebu

1.44 Dim ond rhai pobl a gaiff fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu ac a gaiff archwilio a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu rhanbarth. Ar ôl iddynt gyflwyno papurau enwebu a bod rhestr y blaid neu'r ymgeisydd unigol yn sefyll ar sail enwebiad dilys, caiff y canlynol archwilio a gwrthwynebu ffurflen enwebu rhanbarth:

- chi (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig ar eich rhan)
- unrhyw Swyddogion Enwebu eraill (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig ar eu rhan) sydd wedi cyflwyno rhestr plaid
- ymgeisydd rhestr plaid
- asiant etholiadol rhestr plaid
- os yw'r asiant etholiadol hefyd yn ymgeisydd ar restr y blaid, rhywun a enwebwyd ganddo i fod yn bresennol ar ei ran
- rhywun sy'n sefyll fel ymgeisydd unigol
- asiant etholiadol rhywun sy'n sefyll fel ymgeisydd unigol
- os yw ymgeisydd unigol yn gweithredu fel ei asiant etholiadol ei hun, rhywun a enwebwyd ganddo i fod yn bresennol ar ei ran

1.45 Ni chaiff unrhyw un arall archwilio papurau enwebu ar unrhyw adeg.

1.46 Caiff cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac un unigolyn arall a ddewisir gan bob ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys fel ymgeisydd unigol neu ymgeisydd ar restr plaid fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu, ond ni chânt eu harchwilio na gwrthwynebu.

1.47 Ni chaiff unrhyw un arall, heblaw am y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'i staff, fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu.

Gwrthwynebu enwebiadau

1.48 Gellir gwrthwynebu dilysrwydd unrhyw ffurflen enwebu ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.49 Bydd y cyfnod a ganiateir i wrthwynebu yn dibynnu ar pryd y cyflwynir y papurau enwebu.

Amserlen ar gyfer gwrthwynebiadau

Enwebiadau a gyflwynir hyd at, a chan gynnwys, 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu

1.50 Rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu a gyflwynir hyd at, a chan gynnwys, 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu gael eu gwneud **rhwng 9am a chanol dydd.**

Enwebiadau a gyflwynir ar ôl 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu

1.51 Rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu a gyflwynir ar ôl 4pm ar yr ugeinfed diwrnod gwaith cyn y bleidlais gael eu gwneud **rhwng 9am a 5pm** ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu. Mae'n rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiadau ar, neu yn ar ôl, adeg cyflwyno'r enwebiad.

O dan un amgylchiad eithriadol, lle bo'r gwrthwynebiad ar sail y ffaith bod ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, gellir gwrthwynebu ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

Gwrthwynebu ar sail y ffaith bod ymgeisydd yn y carchar am flwyddyn neu fwy

1.52 Yn yr achos prin lle bo'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ystyried y gall ymgeisydd fod wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, bydd yn cyhoeddi hysbysiad i wahodd gwrthwynebiadau i enwebu ymgeisydd unigol neu ymgeisydd ar restr plaid (fel y bo'n briodol) ar y sail honno. Gellir gwneud unrhyw wrthwynebiad o'r fath rhwng **10am a 4pm y diwrnod gwaith nesaf wedi'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.**

Penderfyniadau ynglŷn â gwrthwynebiadau

1.53 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau a wneir, ond caiff benderfynu bod enwebiad yn annilys am y rhesymau canlynol yn unig:

- O ran ymgeisydd unigol nad yw'n sefyll ar ran plaid:
  - nid yw manylion yr ymgeisydd yn unol â'r gyfraith
  - ni lofnodwyd y ffurflen fel sy'n ofynnol
  - mae'r ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy
  - mae'r ymgeisydd yn sefyll mewn mwy nag un rhanbarth

- O ran rhestr plaid:
  - nid yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys enw plaid na disgrifiad
  - nid yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys rhestr plaid neu mae mwy na 12 o ymgeiswyr wedi'u cynnwys ar y rhestr
  - nid yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys tystysgrif sy'n awdurdodi defnyddio enw plaid neu ddisgrifiad
  - ni lofnodwyd y ffurflen fel sy'n ofynnol
  - nid oes dim un o'r ymgeiswyr ar restr y blaid wedi'i enwebu mwyach

- O ran ymgeisydd sydd wedi'i gynnwys ar restr plaid:
  - nid yw manylion yr ymgeisydd yn unol â'r gyfraith
  - mae'r ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy
  - mae'r ymgeisydd yn sefyll mewn mwy nag un rhanbarth

1.54 Bydd penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fod enwebiad yn ddilys yn derfynol ac ni ellir ei herio yn ystod yr etholiad. Dim ond drwy ddeiseb etholiadol y gellir herio'r penderfyniad ar ôl etholiad (gweler Rhan 6 - Ar ôl datgan canlyniad am ragor o wybodaeth am ddeisebau etholiadol).

Tynnu'n ôl

1.55 Gallwch chi (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig gennych) dynnu eich rhestr plaid gyfan yn ôl, neu dynnu enw un neu fwy o'r ymgeiswyr ar y rhestr honno yn ôl. Os byddwch yn dymuno tynnu'r rhestr yn ôl yn llawn neu'n rhannol, rhaid i chi (neu'r sawl a benodwyd yn ysgrifenedig gennych) lofnodi a chyflwyno hysbysiad tynnu enw yn ôl. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r hysbysiad, ond rhaid gwneud hynny'n bersonol.

1.56 Caiff ymgeisydd sydd ar restr y blaid hefyd dynnu'n ôl o'r etholiad. Gall wneud hyn drwy gyflwyno hysbysiad tynnu enw yn ôl, y mae'n rhaid i rywun arall ei dystio. Rhaid i'r tyst hefyd lofnodi'r hysbysiad.

1.57 Gellir cael hysbysiad tynnu enw yn ôl gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu gellir ei lawrlwytho o'n gwefan.

1.58 Rhaid i hysbysiad tynnu enw yn ôl gael ei gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn y man cyflwyno papurau enwebu erbyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl, sef 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl, nid yw'n bosibl tynnu'n ôl o'r etholiad.

1.59 Os byddwch yn tynnu rhestr lawn y blaid yn ôl, ad-delir eich ernes.

Os caiff ymgeisydd ei ethol heb wrthwynebiad mae'n rhaid i ymgeiswyr (asr restr plaid neu ymgeiswyr unigol) wneud datganiad o ran eu gwariant etholiadol.

Gweler Rhan 3: Gwariant a rhoddion am fwy o fanylion.

1.60 Os bydd ymgeisydd ar y rhestr yn dymuno tynnu'n ôl a'i fod y tu allan i'r Deyrnas Unedig ar y pryd, gall rhywun arall lofnodi'r hysbysiad tynnu enw yn ôl ar ei ran, ond rhaid ei gyflwyno ynghyd â datganiad ysgrifenedig sy'n nodi ei fod yn absennol o'r Deyrnas Unedig a datganiad ysgrifenedig a lofnodwyd ganddo sy'n cadarnhau ei fod wedi awdurdodi'r unigolyn sy'n cyflwyno'r hysbysiad i dynnu ei enwebiad yn ôl.

Beth sy'n digwydd ar ôl i enwebiadau gau?

1.61 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyhoeddi datganiad am yr unigolion a'r pleidiau a enwebwyd, gan gynnwys hysbysiad etholiad ar gyfer y rhanbarth, erbyn 4pm ar y 18fed diwrnod gwaith cyn yr etholiad fan bellaf. Bydd y datganiad yn cynnwys:

- enw/disgrifiad pob plaid gofrestredig sydd wedi'i henwebu'n ddilys
- cyfeiriad cartref ac enwau llawn neu gyffredin pob ymgeisydd rhestr, neu os ydynt wedi gwneud cais i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi, enw'r etholaeth y mae eu cyfeiriad cartref ynddi (neu'r wlad y mae eu cyfeiriad cartref ynddi os yw eu cyfeiriad tu allan i'r DU)
- enwau, cyfeiriadau a'r disgrifiad 'Annibynnol' a/neu 'Independent' (os yw'n berthnasol) ar gyfer unrhyw ymgeiswyr nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol, neu os ydynt wedi gwneud cais i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi, enw'r etholaeth y mae eu cyfeiriad cartref ynddi (neu'r wlad y mae eu cyfeiriad cartref ynddi os yw eu cyfeiriad tu allan i'r DU)
- enwau ymgeiswyr a/neu bleidiau nad ydynt wedi'u henwebu mwyach, os o gwbl (h.y. ymgeiswyr annilys a'r rhai sydd wedi tynnu'n ôl), gan nodi'r rheswm pam nad ydynt yn sefyll mwyach

Archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref

1.62 Yn ystod oriau swyddfa arferol, o adeg cau'r enwebiadau hyd at y diwrnod cyn y bleidlais, mae hawl gan rai pobl archwilio'r ffurflenni cyfeiriadau cartref. Y bobl hynny yw:

- Unrhyw berson (arall) sy'n sefyll fel ymgeisydd enwebedig yn yr un rhanbarth Senedd â chi
- Asiant etholiadol unrhyw berson (arall) sy'n sefyll fel ymgeisydd enwebedig yn yr un rhanbarth Senedd â chi
- Cynigydd neu eilydd ymgeisydd arall
- Lle bo person arall sy'n sefyll fel ymgeisydd enwebedig yn gweithredu fel ei asiant ei hunan, neu unrhyw berson arall a enwebwyd ganddynt

1.63 Ni chaiff neb dynnu gwybodaeth o ffurflen cyfeiriad cartref na gwneud copi ohonynt.

Penodi asiant etholiadol ac asiantiaid eraill

1.64 Yr asiant etholiadol yw'r sawl sy'n gyfrifol am reoli'r ymgyrch ranbarthol yn briodol ac, yn arbennig, am ei rheolaeth ariannol. Rhaid bod gan blaid sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholiad Senedd Cymru asiant etholiadol i weithredu ar ran pob ymgeisydd ar restr y blaid.

1.65 Yn dilyn y penodiad, dim ond gan neu drwy'r asiant etholiadol y gellir talu treuliau etholiad.

1.66 Hefyd, mae gan asiantiaid etholiadol hawl i benodi asiantiaid eraill i arsylwi'r prosesau etholiadol canlynol, y mae gan yr ymgeiswyr rhestr a'r asiant etholiadol yr hawl i'w harsylwi hefyd:

- agor pleidleisiau drwy'r post
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif (gan gynnwys coladu canlyniadau)

Am ragor o wybodaeth am wariant pleidiau, gweler ein canllawiau i bleidiau gwleidyddol ar wariant ymgyrchu.

I gael rhagor o wybodaeth am wariant ymgeiswyr, gweler: Rhan 3: Gwariant a rhoddion

Pwy all fod yn asiant etholiadol?

1.67 Nid oes angen unrhyw gymwysterau penodol i fod yn asiant etholiadol a gallwch chi fod yn asiant i'r blaid os

dymunwch wneud hynny. Yn yr un modd, gallai ymgeisydd rhestr fod yn asiant i'r holl ymgeiswyr ar y rhestr.

1.68 Fodd bynnag, ni chaiff y bobl ganlynol fod yn asiantiaid etholiadol:

- y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu aelod o'u staff (gan gynnwys unrhyw glercod a benodwyd yn arbennig ar gyfer yr etholiad)
- dirprwy neu glerc y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, Swyddog Canlyniadau Etholaethol, neu aelod o'u staff
- swyddog awdurdod lleol y mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn defnyddio ei wasanaethau
- partner neu glerc unrhyw un o'r uchod

1.69 Efallai y bydd gan eich plaid reolau penodol hefyd ynghylch pwy y gellir ei benodi'n asiant etholiadol.

Penodi asiant etholiadol

1.70 Yn sgil y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth rôl asiant etholiadol, dylai pleidiau ystyried y penodiad yn ofalus a sicrhau bod yr unigolyn dan sylw yn deall ei rwymedigaethau.

1.71 Rhaid i chi, neu rywun ar eich rhan, ddatgan yn ysgrifenedig enw, a chyfeiriad swyddfa eich asiant etholiadol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Dylech chi (neu'r sawl sy'n gwneud y datganiad ar eich rhan) a'r asiant lofnodi'r datganiad er mwyn dangos ei fod yn derbyn y penodiad.

1.72 Gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ddarparu ffurflen datganiad, neu gallech ddefnyddio ffurflen datganiad yr asiant etholiadol a gynhyrchwyd gan y Comisiwn. Os na chaiff rhywun ei benodi'n asiant i restr y blaid erbyn y dyddiad cau, bydd yr ymgeisydd sy'n ymddangos yn gyntaf ar restr y blaid yn gweithredu fel asiant i bob ymgeisydd ar y rhestr.

1.73 Rhaid bod gan yr asiant swyddfa y gellir anfon unrhyw hysbysiadau cyfreithiol iddi, ac felly rhaid bod gan y swyddfa honno gyfeiriad ffisegol – ni ellir defnyddio blychau Swyddfa'r Post na blychau post tebyg.

Mae hefyd yn ddefnyddiol darparu rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer eich asiant etholiadol fel y gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol gysylltu ag ef yn hawdd.

1.74 Rhaid i gyfeiriad swyddfa'r asiant fod yng Nghymru. Yn aml, cyfeiriad cartref yr asiant fydd hwn, ond gallai hefyd fod yn gyfeiriad swyddfa leol y blaid neu swyddfa a sefydlwyd ar gyfer yr etholiad.

1.75 Os ydych chi, neu rywun arall ar eich rhan, yn penodi ymgeisydd rhestr fel asiant etholiadol, ac mae'r swyddfa a ddarparwyd hefyd yn gyfeiriad cartref i'r ymgeisydd, ac mae hwythau wedi penderfynu peidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref, ni chaiff y cyfeiriad ei gyhoeddi ar yr hysbysiad asiantiaid etholiadol. Yn hytrach, bydd yr etholaeth neu wlad maent wedi ei darparu ar eu ffurflen cyfeiriad cartref yn cael ei hargraffu ar yr hysbysiad asiantiaid etholiadol.

1.76 Os na fydd plaid yn penodi asiant a bod yr ymgeisydd sy'n ymddangos yn gyntaf ar y rhestr yn gweithredu fel yr asiant etholiadol, tybir mai ei gyfeiriad swyddfa yw'r cyfeiriad a roddwyd ar ei ganiatâd i enwebu.

Diddymu penodiad asiant etholiadol

1.77 Gellir diddymu penodiad asiant etholiadol unrhyw bryd, gan gynnwys ar ôl y diwrnod pleidleisio, a gellir gwneud penodiad newydd drwy ddilyn y broses uchod. Os caiff penodiad asiant etholiadol ei ddiddymu a bod neb arall yn cael ei benodi, tybir mai'r sawl sy'n ymddangos yn gyntaf ar restr y blaid fydd yr asiant etholiadol.

1.78 Pan fydd asiant wedi derbyn ei benodiad, ni all ymddiswyddo a rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau gofynnol oni fyddwch yn diddymu ei benodiad.

Is-asiantiaid

1.79 Gall asiant etholiadol benodi is-asiantiaid i weithredu ar ei ran ledled y rhanbarth, ar yr amod nad yw'r rhannau hynny o'r rhanbarth yn gorgyffwrdd. Gall yr asiant benderfynu ar sut i rannu'r rhanbarth.

1.80 Caiff is-asiant wneud unrhyw beth y caiff yr asiant etholiadol ei wneud yn yr ardal lle y'i penodwyd.

1.81 Dylai'r asiant etholiadol sicrhau bod unrhyw is-asiant yn ymwybodol o'r rheolau gwariant ac etholiadol, oherwydd caiff

unrhyw beth a wneir gan is-asiant ei drin fel petai wedi'i wneud gan yr asiant etholiadol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein canllawiau i bleidiau gwleidyddol ar wariant ymgyrchu a Rhan 3: Gwariant a rhoddion.

1.82 Rhaid bod gan bob is-asiant swyddfa y gellir anfon unrhyw hysbysiadau cyfreithiol iddi, ac felly rhaid bod gan y swyddfa honno gyfeiriad ffisegol – ni ellir defnyddio blychau Swyddfa'r Post na blychau post tebyg. Rhaid i swyddfa'r is-asiant fod yn yr ardal y mae wedi'i benodi i weithredu ynddi.

1.83 Rhaid i'r asiant etholiadol hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ysgrifenedig am enw a chyfeiriad pob is-asiant a'r ardal y mae wedi'i benodi i weithredu ynddi erbyn y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn darparu ffurflen i chi ei defnyddio. Neu, gallwch ddefnyddio'r ffurflen bwrpasol ym mhecyn enwebu'r Comisiwn.

1.84 Caiff yr asiant etholiadol ddiddymu penodiad is-asiant ar unrhyw adeg a phenodi rhywun arall yn ei le. Os penodir is-asiant arall, rhaid i'r asiant etholiadol ddatgan yn ysgrifenedig yr enw, cyfeiriad, cyfeiriad swyddfa ac ardal y penodiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

Penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif

1.85 Gall asiant etholiadol rhestr plaid benodi asiantiaid i fod yn bresennol wrth i'r pleidleisiau drwy'r post gael eu hagor, ac yn ystod y bleidlais a'r cyfrif.

1.86 Gellir penodi unrhyw un, ar wahân i'r rhai a nodir ym mharagraff **1.66**, i weithredu fel asiant pleidleisiau post, pleidleisio neu gyfrif. Gall yr holl ymgeiswyr ar y rhestr a'r asiant etholiadol hefyd weithredu fel un o'r asiantiaid hynny heb fod angen eu penodi'n swyddogol. Caiff is-asiantiaid hefyd fod yn bresennol yn ystod y bleidlais a'r cyfrif, ond dim ond yn lle'r asiant etholiadol.

1.87 Gellir penodi unrhyw nifer o asiantiaid pleidleisio i fod yn bresennol ymhob gorsaf bleidleisio, ond dim ond un asiant pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd unigol neu restr plaid all fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg. Gellir

penodi asiant pleidleisio i fod yn bresennol mewn mwy nag un orsaf bleidleisio.

1.88 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (neu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol) yn rhoi gwybod i'r asiant etholiadol beth yw uchafswm nifer yr asiantiaid pleidleisiau post a chyfrif y gellir eu penodi ar gyfer y rhanbarth. Caiff ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr rhestr plaid benodi'r un nifer. Yn y cyfrif, oni fydd amgylchiadau arbennig, ni fydd nifer yr asiantiaid cyfrif a ganiateir i bob ymgeisydd unigol ac ymgeisydd rhestr plaid yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif (h.y. y staff hynny a gyflogir i gyfrif) â nifer yr ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr rhestr plaid.

1.89 Rhaid i'r cais i benodi'r asiantiaid hyn gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol. Rhaid iddo gynnwys enwau a chyfeiriadau'r bobl a benodir. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol yn darparu ffurflenni ar gyfer hyn, neu gallwch ddod o hyd i ffurflenni penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif ar wefan y Comisiwn.

1.90 Bydd y dyddiad cau ar gyfer penodi'r asiantiaid hyn yn dibynnu ar y broses y byddant yn bresennol ynddi. Rhaid i asiantiaid pleidleisio a chyfrif gael eu penodi heb fod yn hwyrach na'r pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Fodd bynnag, nid oes ond rhaid i'r ffurflenni penodi ar gyfer asiantiaid pleidleisiau post gael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol erbyn yr amser a bennwyd ar gyfer y digwyddiad agor pleidleisiau post y maent am fod yn bresennol ynddo. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd i chi cyn i bob sesiwn agor pleidleisiau post ddechrau.

1.91 Os bydd asiant yn marw neu'n methu â gweithredu, cewch benodi asiant arall yn ei le drwy gyflwyno'r ffurflen benodi berthnasol i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol. Rhaid i unrhyw benodiad newydd o dan yr amgylchiadau hyn gael ei wneud yn ddi-oed.

1.92 Rhoddir rhagor o wybodaeth am yr hyn y caiff asiantiaid ei wneud a'r hyn na chaiff asiantiaid ei wneud, a'r hyn y gallant ddisgwyl ei weld mewn sesiynau agor pleidleisiau post,

gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif, yn Rhan 5: Eich hawl i fod yn bresennol mewn digwyddiadau etholiadol allweddol.

Marwolaeth ymgeisydd

1.93 Os bydd ymgeisydd yn marw yn ystod cyfnod yr etholiad, gweler paragraff **1.183** i gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd hyn yn effeithio ar yr etholiad.

Gwybodaeth hanfodol: ymgeiswyr nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol

Mae'r rhan hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar gyfer ymgeiswyr unigol nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol sy'n sefyll etholiad fel aelodau rhanbarthol o Senedd Cymru.

Darperir gwybodaeth atodol yng nghefn y ddogfen hon, sydd ond yn berthnasol o bosibl i rai ymgeiswyr. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Mae gwybodaeth hanfodol i Swyddogion Enwebu sy'n cyflwyno rhestr plaid i'w gweld o baragraff **1.1** ymlaen.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Gweler ein Dogfen trosolwg am fanylion cyswllt.

Drwy'r ddogfen hon, rydym yn defnyddio ‘rhaid’ wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau sydd yn arfer da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Rydym wedi cynnwys dyddiadau cau perthnasol drwy'r ddogfen hon, ond gallwch hefyd weld amserlen etholiad ar wahân yn nodi'r holl ddyddiadau allweddol ar ein gwefan.

Rydym yn deall y gall y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau newid, a byddwn yn diweddaru'r canllaw hwn unwaith y bydd unrhyw newidiadau wedi'u cadarnhau.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu data personol yn ei gyfanrwydd.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae’r ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol yn effeithio arnoch chi.

Cwblhau eich papurau enwebu

Rydym yn deall y gall y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau newid, a byddwn yn diweddaru'r canllaw hwn unwaith y bydd unrhyw newidiadau wedi'u cadarnhau.

1.94 I gael eich enwebu'n ymgeisydd rhanbarthol unigol yn etholiadau Senedd Cymru, bydd angen i chi gyflwyno set o bapurau enwebu sydd wedi'u cwblhau i'r man a nodwyd gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ynghyd ag ernes o £500, erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Pennir y dyddiad cau hwn yn ôl y gyfraith ac ni ellir ei newid am unrhyw reswm.

1.95 Nodir y dyddiad pan allwch ddechrau cyflwyno papurau enwebu, yn ogystal â'r amseroedd a'r man cyflwyno, yn yr hysbysiad etholiad swyddogol a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.96 Rhaid i chi gyflwyno tri phapur enwebu er mwyn i'ch enwebiad fod yn ddilys:

- y ffurflen enwebu

- ffurflen cyfeiriad cartref
- eich caniatâd i enwebu

Y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad yw 25 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.97 Gallwch gael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Rhoddir manylion cyswllt ar ein gwefan. Fel arall, mae'r Comisiwn wedi llunio set o bapurau enwebu y gallech ei defnyddio.

1.98 Os na fyddwch chi, eich asiant neu rywun rydych yn ymddiried ynddo yn gallu cwblhau'r ffurflen enwebu, gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol helpu trwy baratoi'r ffurflen i chi ei llofnodi. Dylech holi'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol cyn gynted â phosibl i weld pa gymorth a all fod ar gael.

1.99 Efallai y gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd gynnig bwrw golwg anffurfiol dros eich papurau enwebu a gwblhawyd cyn i chi eu cyflwyno. Dylech gael ar wybod gan yr RRO p'un a ydynt yn bwriadu cynnig gwiriadau anffurfiol.

1.100 Noder bod yn rhaid i unrhyw wybodaeth rydych yn ei rhoi ar eich papurau enwebu fod yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth. Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir ar eich papurau enwebu. Gallai rhoi datganiad anwir annilysu eich etholiad, a gallech hefyd wynebu dirwy anghyfyngedig a/neu ddedfryd o garchar am hyd at flwyddyn.

Y ffurflen enwebu

1.101 Rhaid i'r ffurflen enwebu gael ei chwblhau yn Gymraeg neu Saesneg. Rhaid i'r ffurflen gynnwys:

- **Eich enw llawn**. Nodwch eich cyfenw ac enwau eraill yn llawn. Gallai defnyddio blaenlythrennau'n unig arwain at wrthod eich papur enwebu. Hefyd, peidiwch â defnyddio rhagddodiaid fel Mr, Mrs, Dr neu Cyngh. fel rhan o'ch enw. Mae'r un peth yn wir am ôl-ddodiaid. Fodd bynnag, os oes gennych deitl, gallwch ddefnyddio hwn fel eich enw llawn. Er enghraifft, os mai Joseph Smith yw eich enw gwirioneddol, ond mai eich teitl etifeddol yw Joseph Avon, gallwch ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel eich enw llawn.

- **Llofnod un llofnodwr**. Gallwch lofnodi eich enwebiad eich hun neu ofyn i rywun arall ei lofnodi. Os bydd rhywun arall yn llofnodi'r ffurflen, bydd angen i'r unigolyn hwnnw hefyd roi ei enw llawn a'i gyfeiriad.

1.102 Mae'r canlynol yn ddewisol:

- **Enw cyffredin** Os ydych yn defnyddio enw sy'n wahanol i unrhyw enw(au) cyntaf neu gyfenw sydd gennych ac yr hoffech iddo ymddangos ar y papur pleidleisio, bydd angen i chi nodi hyn ar y ffurflen enwebu. Rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraff **1.175**.

- **Disgrifiad** – Os hoffech i'r gair 'Annibynnol' a/neu 'Independent' ymddangos ar y papur pleidleisio o dan eich enw, bydd angen i chi nodi hyn ar y ffurflen enwebu. Ni chaniateir unrhyw ddisgrifiadau eraill ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig. Fel arall, gallwch ddewis peidio â chael disgrifiad o gwbl, gan adael y rhan hon o'r ffurflen yn wag.

Gellir gweld enwau pleidiau cofrestredig a disgrifiadau cofrestredig ar ein cofrestr ar-lein. http://search.electoralcommission.org.uk/cymraeg

Ffurflen cyfeiriad cartref

1.103 Mae gofyn i chi gwblhau ffurflen cyfeiriad cartref, y mae'n rhaid ei hanfon â llaw, ynghyd â'r ffurflen enwebu, erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu, sef y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais.

1.104 Mae'n rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref nodi eich cyfeiriad cartref yn llawn.

1.105 Eich cyfeiriad cartref:

- Rhaid iddo beidio â chynnwys talfyriadau
- Rhaid iddo fod eich cyfeiriad cartref cyfredol
- rhaid iddo beidio â bod yn gyfeiriad busnes (heblaw eich bod yn cynnal busnes o'ch cartref)

1.106 Nid oes angen i'ch cyfeiriad fod yn y rhanbarth rydych yn bwriadu sefyll ynddi

1.107 Gallwch ddewis i'ch cyfeiriad cartref beidio ag ymddangos ar y datganiad personau a enwebwyd neu'r papur pleidleisio.

1.108 Os felly, rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref gynnwys, yn ogystal â'ch enw llawn a'ch cyfeiriad cartref:

- Datganiad, a lofnodwyd gennych, sy'n datgan eich bod yn gofyn na chaiff eich cyfeiriad cartref ei gyhoeddi
- etholaeth Senedd Cymru y mae eich cyfeiriad cartref, neu os yw eich cyfeiriad y tu allan i Gymru, ym mha etholaeth Seneddol (Senedd y DU); neu os yw eich cyfeiriad tu allan i'r DU, ychwanegwch enw'r wlad
- Os yw eich cyfeiriad cartref y tu allan i'r DU, enw'r wlad y mae eich cyfeiriad cartref ynddi

Cydsyniad i enwebu

1.109 Rhaid i chi hefyd roi caniatâd ffurfiol i'ch enwebiad yn ysgrifenedig. Rhagnodir cynnwys y ffurflen cydsynio i'r enwebu o dan y gyfraith. Ar y ffurflen, gofynnir i chi nodi eich bod yn gymwys ac nad ydych wedi'ch anghymhwyso rhag sefyll. Rhaid i chi hefyd nodi:

- eich dyddiad geni
- cyfeiriad yng Nghymru, a all fod yn gyfeiriad cartref i chi (a thybir mai hwn fydd cyfeiriad eich swyddfa os byddwch yn gweithredu fel eich asiant etholiadol eich hun drwy fethu â phenodi neb arall. Rhoddir rhagor o wybodaeth am asiantiaid etholiadol ym mharagraff **1.141**).
- nad ydych yn ymgeisydd yn yr un etholiad yn unrhyw etholaeth arall.

Rhoddir gwybodaeth am amodau cymhwyso ac anghymhwyso yn Rhan 1: A allwch sefyll etholiad?

1.110 Ni chewch lofnodi'r ffurflen cydsyniad i'r enwebiad yn gynharach nag un mis cyn y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno eich papurau enwebu.

1.111 Gellir cyflwyno'r cydsyniad i'r enwebiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn bersonol, neu ei gyflwyno'n

electronig i gyfeiriad e-bost at y perwyl hwnnw.Os byddwch dramor a bod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn fodlon, oherwydd eich absenoldeb o'r DU, nad yw'n ymarferol i chi roi caniatâd ysgrifenedig a'i gyflwyno'n bersonol iddo, cewch gyflwyno'r cydsyniad drwy ffacs neu e-bost.

Cyflwyno eich papurau enwebu

1.112 Rhaid i'r ffurflen enwebu a'r caniatâd i enwebu gael eu cyflwyno i'r man a nodwyd ar yr hysbysiad etholiad erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich papurau enwebu yn cael eu cyflwyno yn y ffordd gywir ac ar amser.

Pwy all gyflwyno'r papurau enwebu?

1.113 Dim ond nifer gyfyngedig o bobl a gaiff gyflwyno eich ffurflen enwebu. Y rhain yw:

- chi
- Rhywun a awdurdodwyd ar eich rhan (a bwrw eich bod wedi rhoi enw a chyfeiriad y person i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol - yn ysgrifenedig neu yn electronig - cyn neu wrth i'r papur gael ei gyflwyno)
- eich asiant etholiadol (ar yr amod eich bod wedi rhoi hysbysiad o benodiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu fod yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno gyda'r ffurflenni)

1.114 Ni chyfyngir ar bwy all gyflwyno eich caniatâd i enwebu, ond dylech sicrhau eich bod chi, eich asiant neu rywun rydych yn ymddiried ynddo yn gwneud hyn, fel y gallwch sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar amser.

Sut y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

1.115 Rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref a'r ffurflen enwebu gael eu cyflwyno'n bersonol. Ni ellir eu postio, ffacsio, e-bostio na defnyddio unrhyw gyfrwng electronig arall.

1.116 Yr unig eithriad i hyn yw lle bo ymgeisydd dramor, ac mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ystyried ei bod yn anymarferol i'r cydsyniad gael ei anfon yn ysgrifenedig. Os felly, gellir ei gyflwyno'n electronig.

1.117 Rhaid cyflwyno **fersiwn wreiddiol** pob papur a gwblhawyd. Byddai ffurflen caniatâd i enwebu a anfonwyd fel atodiad e-bost i'w hargraffu, er enghraifft, yn ei gwneud yn 'gopi o ddogfen' ac nid y ddogfen wreiddiol.

Pryd y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

1.118 Dylech gyflwyno eich papurau enwebu cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cyfle i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fwrw golwg anffurfiol drostynt a rhoi digon o amser i chi gyflwyno papurau enwebu newydd os bydd eich set gyntaf yn cynnwys unrhyw wallau.

1.119 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cadarnhau'r union fanylion o ran pryd a ble y gellir cyflwyno papurau enwebu ar yr hysbysiad etholiad swyddogol. Cyhoeddir yr hysbysiad etholiad heb fod yn hwyrach na 25 diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyhoeddir yr hysbysiad etholiad ar wefan awdurdod lleol y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, yn ogystal ag ar wefannau'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth.

1.120 Gallwch gyflwyno papurau enwebu rhwng 9am a 5pm ar unrhyw ddiwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad tan 4pm ar y 19^{eg} diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.121 Dylech gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol cyn gynted â phosibl er mwyn gweld pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.

1.122 Os byddwch, ar ôl cyflwyno eich papurau enwebu, yn newid eich meddwl am sefyll etholiad, cewch dynnu'n ôl, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny erbyn 4pm ar y 19^{eg} diwrnod gwaith cyn yr etholiad. I gael rhagor o fanylion am dynnu'n ôl, gweler paragraff **1.136.**

Yr ernes

1.123 Er mwyn i'r enwebiad fod yn ddilys, rhaid rhoi'r swm o £500 yn ernes i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, sef 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Gellir talu'r ernes gan ddefnyddio:

- arian parod (punnoedd Sterling yn unig)
- drafft bancwr yn y DU

1.124 Gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd dderbyn ernes ar ffurf siec cymdeithas adeiladu, cerdyn debyd neu gredyd neu drosglwyddiad electronig. Fodd bynnag, gall wrthod gwneud hynny. Os ydych yn ystyried talu'r ernes yn un o'r ffyrdd hyn, dylech holi'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol cyn gynted â phosibl i gadarnhau a yw'r dull o dalu'n dderbyniol.

1.125 Os bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn caniatáu i'r ernes gael ei thalu drwy gerdyn debyd neu gredyd, gall y cwmni dan sylw godi ffi am y trafodyn. Os felly, bydd angen i chi dalu unrhyw ffioedd ychwanegol yn ogystal â'r ernes o £500.

1.126 Oni bai eich bod yn talu'r ernes eich hun, neu mai eich asiant sy'n talu'r ernes a'ch bod wedi hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol am ei benodiad, bydd angen i'r sawl sy'n talu'r ernes roi ei enw a'i gyfeiriad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar yr adeg honno.

1.127 Os cewch fwy na 5% o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys yn y rhanbarth, ad-delir eich ernes. Bydd yr ymgeiswyr hynny a gaiff 5% neu lai o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys yn colli eu hernes.

Archwilio papurau enwebu

1.128 Dim ond rhai pobl a gaiff fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu ac a gaiff archwilio a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu rhanbarth. Ar ôl iddynt gyflwyno papurau enwebu a bod rhestr y blaid neu'r ymgeisydd unigol yn sefyll ar sail enwebiad dilys, caiff y canlynol archwilio a gwrthwynebu ffurflen enwebu rhanbarth:

- chi
- eich asiant etholiadol
- unrhyw ymgeisydd unigol arall a'i asiant etholiadol
- os yw ymgeisydd unigol yn gweithredu fel ei asiant etholiadol ei hun, rhywun a enwebwyd ganddo i fod yn bresennol ar ei ran
- Swyddog Enwebu rhestr plaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar ei ran)
- ymgeisydd rhestr plaid
- asiant etholiadol rhestr plaid
- os yw'r asiant etholiadol hefyd yn ymgeisydd ar restr y blaid, rhywun a enwebwyd ganddo i fod yn bresennol ar ei ran

1.129 Ni chaiff unrhyw un arall archwilio papurau enwebu ar unrhyw adeg.

1.130 Caiff cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac un unigolyn arall a ddewisir gan bob ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys fel ymgeisydd unigol neu ymgeisydd ar restr plaid fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu, ond ni chânt eu harchwilio na gwrthwynebu.

1.131 Ni chaiff unrhyw un arall, heblaw am y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'i staff, fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu.

Gwrthwynebu enwebiadau

1.132 Gellir gwrthwynebu dilysrwydd unrhyw ffurflen enwebu ar y 19^{eg} diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.133 Bydd y cyfnod a ganiateir i wrthwynebu yn dibynnu ar pryd y cyflwynir y papurau enwebu.

O dan un amgylchiad eithriadol, lle bo'r gwrthwynebiad ar sail y ffaith bod ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, gellir gwrthwynebu ar y 19^{eg} diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

Amserlen ar gyfer gwrthwynebiadau

Enwebiadau a gyflwynir hyd at, a chan gynnwys, 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu

1.134 Rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu a gyflwynir hyd at, a chan gynnwys, 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu gael eu gwneud **rhwng 9am a chanol dydd ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu**.

Enwebiadau a gyflwynir ar ôl 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu

1.135 Rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu a gyflwynir ar ôl 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu gael eu gwneud **rhwng 9am a 5pm ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.** Mae'n rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiadau ar neu yn syth wedi adeg cyflwyno'r enwebiad.

Gwrthwynebu ar sail y ffaith bod ymgeisydd yn y carchar am flwyddyn neu fwy

1.136 Yn yr achos prin lle bo'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ystyried y gall ymgeisydd fod wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, bydd yn cyhoeddi hysbysiad i wahodd gwrthwynebiadau i enwebu ymgeisydd unigol neu ymgeisydd ar restr plaid (fel y bo'n briodol) ar y sail honno. Gellir gwneud unrhyw wrthwynebiad o'r fath rhwng **10 am a 4pm ar y diwrnod gwaith nesaf wedi'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu**.

Penderfyniadau ynglŷn â gwrthwynebiadau

1.137 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau a wneir, ond caiff benderfynu bod enwebiad yn annilys am y rhesymau canlynol yn unig:

- O ran ymgeisydd unigol nad yw'n sefyll ar ran plaid:
  - nid yw manylion yr ymgeisydd yn unol â'r gyfraith
  - ni lofnodwyd y ffurflen fel sy'n ofynnol
  - mae'r ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy
  - mae'r ymgeisydd yn sefyll mewn mwy nag un rhanbarth

- O ran rhestr plaid:
  - nid yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys enw plaid neu ddisgrifiad
  - nid yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys rhestr plaid neu mae mwy na 12 o ymgeiswyr wedi'u cynnwys ar y rhestr
  - nid yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys tystysgrif sy'n awdurdodi defnyddio enw plaid neu ddisgrifiad
  - ni lofnodwyd y ffurflen fel sy'n ofynnol
  - nid oes dim un o'r ymgeiswyr ar restr y blaid wedi'i enwebu mwyach

- O ran ymgeisydd sydd wedi'i gynnwys ar restr plaid:
  - nid yw manylion yr ymgeisydd yn unol â'r gyfraith
  - mae'r ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy
  - mae'r ymgeisydd yn sefyll mewn mwy nag un rhanbarth

1.138 Bydd penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fod enwebiad yn ddilys yn derfynol ac ni ellir ei herio yn ystod yr etholiad. Dim ond drwy ddeiseb etholiadol y gellir herio'r penderfyniad ar ôl etholiad (gweler Rhan 6 - Ar ôl datgan canlyniad am ragor o wybodaeth am ddeisebau etholiadol).

Os etholir ymgeisydd mewn etholiad diwrthwynebiad, bydd yn rhaid iddo wneud datganiad o ran treuliau etholiad o hyd.

Gweler Rhan 3: Gwariant a rhoddion am fwy o fanylion.

Tynnu'n ôl

1.139 Cewch dynnu'n ôl fel ymgeisydd drwy lofnodi a chyflwyno hysbysiad tynnu enw yn ôl, y mae'n rhaid i rywun arall ei dystio. Rhaid i'ch tyst hefyd lofnodi'r hysbysiad. Nid oes

unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r hysbysiad, ond rhaid gwneud hynny'n bersonol. Gellir cael hysbysiad tynnu enw yn ôl gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu gellir ei lawrlwytho o'n gwefan.

1.140 Rhaid i'r hysbysiad tynnu enw yn ôl gael ei gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl, sef 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl, nid yw'n bosibl tynnu'n ôl o'r etholiad, a bydd eich enw yn ymddangos ar y papur pleidleisio. Os bydd yr etholiad yn ddiwrthwynebiad, cewch eich ethol.

1.141 Os byddwch y tu allan i'r Deyrnas Unedig, gall rhywun arall lofnodi'r hysbysiad tynnu enw yn ôl ar eich rhan, ond rhaid ei gyflwyno ynghyd â datganiad ysgrifenedig sy'n nodi eich bod yn absennol o'r Deyrnas Unedig a datganiad ysgrifenedig a lofnodwyd gennych sy'n cadarnhau eich bod wedi awdurdodi'r unigolyn sy'n cyflwyno'r hysbysiad i dynnu eich enwebiad yn ôl.

1.142 Os byddwch yn tynnu'n ôl fel ymgeisydd, ad-delir eich ernes.

Beth sy'n digwydd ar ôl i enwebiadau gau?

1.143 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyhoeddi datganiad am yr unigolion (a'r pleidiau) a enwebwyd, gan gynnwys hysbysiad etholiad ar gyfer y rhanbarth, erbyn 4pm ar y 18fed diwrnod gwaith cyn yr etholiad fan bellaf. Bydd y datganiad yn cynnwys:

- enw/disgrifiad pob plaid gofrestredig sydd wedi'i henwebu'n ddilys
- cyfeiriad cartref ac enwau llawn neu gyffredin pob ymgeisydd rhestr, neu os ydynt wedi gwneud cais i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi, enw'r etholaeth y mae eu cyfeiriad cartref ynddi (neu'r wlad y mae eu cyfeiriad cartref ynddi os yw eu cyfeiriad tu allan i'r DU)

- enwau, cyfeiriadau a'r disgrifiad ‘Annibynnol’ a/neu ‘Independent’ (os yw'n berthnasol) ar gyfer yr ymgeiswyr nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol
- enwau ymgeiswyr a/neu bleidiau nad ydynt wedi'u henwebu mwyach, os o gwbl (h.y. ymgeiswyr annilys a'r rhai sydd wedi tynnu'n ôl), gan nodi'r rheswm pam nad ydynt yn sefyll mwyach

Archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref

1.143 Yn ystod oriau swyddfa arferol, o adeg cau’r enwebiadau hyd at y diwrnod cyn y bleidlais, mae hawl gan rai pobl archwilio’r ffurflenni cyfeiriadau cartref. Y bobl hynny yw:

- Unrhyw berson (arall) sy’n sefyll fel ymgeisydd enwebedig yn yr un rhanbarth â chi
- Asiant etholiadol unrhyw berson (arall) sy’n sefyll fel ymgeisydd enwebedig yn yr un rhanbarth â chi. Cynigydd neu eilydd ymgeisydd arall
- Lle bo person arall sy’n sefyll fel ymgeisydd enwebedig yn gweithredu fel ei asiant ei hunan, neu unrhyw berson arall a enwebwyd ganddynt

1.144 Ni chaiff neb dynnu gwybodaeth o ffurflen cyfeiriad cartref na gwneud copi ohonynt.

Penodi eich asiant etholiadol ac asiantiaid eraill

1.146 Yr asiant etholiadol yw'r sawl sy'n gyfrifol am reoli'ch ymgyrch etholiadol yn briodol ac, yn arbennig, am ei rheolaeth ariannol. Rhaid i chi benodi asiant etholiadol. Os na wnewch hynny, chi fydd yn cyflawni'r rôl honno.

I gael rhagor o wybodaeth am wariant ymgeiswyr, gweler:
Rhan 3: Gwariant a rhoddion

1.147 Yn dilyn y penodiad, dim ond gan neu drwy'r asiant etholiadol y gellir talu treuliau etholiad.

1.148 Gallwch hefyd benodi asiantiaid eraill i arsylwi'r prosesau etholiadol canlynol, y mae gennych chi a'ch asiant etholiadol yr hawl i'w harsylwi hefyd:

- agor pleidleisiau drwy'r post
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif (gan gynnwys coladu canlyniadau)

Pwy all fod yn asiant etholiadol?

1.149 Nid oes angen unrhyw gymwysterau penodol i fod yn asiant etholiadol a gallwch fod yn asiant i chi'ch hun os dymunwch wneud hynny.

1.150 Fodd bynnag, ni chaniateir yn ôl y gyfraith i'r bobl ganlynol fod yn asiantiaid etholiadol :

- y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu aelod o'u staff (gan gynnwys unrhyw glercod a benodwyd yn arbennig ar gyfer yr etholiad)
- dirprwy neu glerc y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, Swyddog Canlyniadau Etholaethol, neu aelod o'u staff
- swyddog awdurdod lleol y mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn defnyddio ei wasanaethau
- partner neu glerc unrhyw un o'r uchod

Penodi asiant etholiadol

1.151 Yn sgil y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth rôl asiant etholiadol, dylech ystyried eich penodiad yn ofalus a sicrhau bod yr unigolyn dan sylw yn deall ei rwymedigaethau. Gallwch fod yn asiant i chi'ch hun os dymunwch wneud hynny.

1.152 Rhaid i chi, neu rywun ar eich rhan, ddatgan yn ysgrifenedig enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa eich asiant etholiadol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Dylech chi (neu'r sawl sy'n gwneud y datganiad ar eich rhan) a'r asiant lofnodi'r datganiad er mwyn dangos ei fod yn derbyn y penodiad.

1.153 Gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ddarparu ffurflen datganiad, neu gallech ddefnyddio ffurflen datganiad yr asiant etholiadol a gynhyrchwyd gan y Comisiwn. Os na fyddwch yn penodi rhywun fel eich asiant erbyn y dyddiad cau, byddwch yn dod yn asiant i chi'ch hun yn awtomatig.

Mae hefyd yn ddefnyddiol darparu rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer eich asiant etholiadol fel y gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol gysylltu ag ef yn hawdd.

1.154 Rhaid i gyfeiriad swyddfa eich asiant fod yng Nghymru.

1.155 Yn aml, cyfeiriad cartref yr asiant fydd cyfeiriad ei swyddfa, ond gallai hefyd fod yn gyfeiriad swyddfa a sefydlwyd ar gyfer yr etholiad.

1.156 Rhaid i'r cyfeiriad swyddfa a gaiff ei ddatgan i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fod yn gyfeiriad y gellir anfon unrhyw hysbysiadau cyfreithiol iddo, ac felly rhaid iddo fod yn gyfeiriad ffisegol – ni ellir defnyddio blychau Swyddfa'r Post nac unrhyw flychau post tebyg.

1.157 Os ydych yn gweithredu fel eich asiant etholiadol i chi eich hunan ac os

- yw'r cyfeiriad swyddfa rydych wedi ei ddarparu hefyd yn gyfeiriad cartref i chi
- wedi gofyn na chaiff eich cyfeiriad cartref ei gyhoeddi,

ni chaiff y cyfeiriad ei gyhoeddi ar yr hysbysiad asiantiaid etholiadol. Yn hytrach, bydd yr etholaeth neu wlad rydych wedi ei darparu ar eich ffurflen cyfeiriad yn cael ei hargraffu ar yr hysbysiad asiantiaid etholiadol.

1.158 Os byddwch yn gweithredu fel eich asiant etholiadol eich hun am nad ydych wedi penodi rhywun arall, tybir mai'r cyfeiriad swyddfa yw'r cyfeiriad a roddwyd gennych ar y cydsyniad i'r enwebu.

Diddymu penodiad asiant etholiadol

1.159 Gallwch ddiddymu penodiad eich asiant etholiadol unrhyw bryd, gan gynnwys ar ôl y diwrnod pleidleisio, a gellir gwneud penodiad newydd drwy ddilyn y broses uchod. Os byddwch yn diddymu penodiad eich asiant etholiadol, heb benodi rhywun arall, tybir mai chi yw eich asiant etholiadol eich hun.

1.160 Os ydych yn gweithredu fel eich asiant eich hun, gallwch ddiddymu eich penodiad eich hun a phenodi rhywun arall fel eich asiant.

1.161 Pan fydd asiant wedi derbyn ei benodiad, ni all ymddiswyddo a rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau gofynnol oni fyddwch yn diddymu ei benodiad.

Is-asiantiaid

1.162 Gall eich asiant etholiadol benodi is-asiantiaid i weithredu ar ei ran ledled y rhanbarth lle rydych yn sefyll, ar yr amod nad yw'r rhannau hynny o'r rhanbarth yn gorgyffwrdd. Gall yr asiant benderfynu ar sut i rannu'r rhanbarth.

1.163 Caiff is-asiant wneud unrhyw beth y caiff yr asiant etholiadol ei wneud yn yr ardal lle y'i penodwyd.

1.164 Dylai'r asiant etholiadol sicrhau bod unrhyw is-asiant yn ymwybodol o'r rheolau gwariant ac etholiadol, oherwydd caiff unrhyw beth a wneir gan is-asiant ei drin fel petai wedi'i wneud gan yr asiant etholiadol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Rhan 3: Gwariant a rhoddion.

1.165 Rhaid bod gan bob is-asiant swyddfa y gellir anfon unrhyw hysbysiadau cyfreithiol iddi, ac felly rhaid bod gan y swyddfa honno gyfeiriad ffisegol – ni ellir defnyddio blychau Swyddfa'r Post na blychau post tebyg. Rhaid i swyddfa'r is-asiant fod yn yr ardal y mae wedi'i benodi i weithredu ynddi.

1.166 Rhaid i'r asiant etholiadol hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ysgrifenedig am enw a chyfeiriad pob is-asiant a'r ardal y mae wedi'i benodi i weithredu ynddi erbyn y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad . Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn darparu ffurflen i chi ei defnyddio. Neu, gallwch ddefnyddio'r ffurflen bwrpasol ym mhecyn enwebu'r Comisiwn.

1.167 Caiff yr asiant etholiadol ddiddymu penodiad is-asiant ar unrhyw adeg a phenodi rhywun arall yn ei le. Os penodir is-asiant arall, rhaid i'r asiant etholiadol ddatgan yn ysgrifenedig yr enw, cyfeiriad, cyfeiriad swyddfa ac ardal y penodiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.168 Pan fydd is-asiant wedi derbyn ei benodiad, ni all ymddiswyddo a rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau gofynnol oni fydd yr asiant etholiadol yn diddymu ei benodiad.

Penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif

1.169 Gallwch hefyd benodi asiantiaid i fod yn bresennol wrth i'r pleidleisiau drwy'r post gael eu hagor, ac yn ystod y bleidlais a'r cyfrif.

1.170 Gellir penodi unrhyw un, ar wahân i'r rhai a nodir ym mharagraff **1.148**, i weithredu fel asiant pleidleisiau post, pleidleisio neu gyfrif. Gallwch chi a'ch asiant etholiadol hefyd weithredu fel un o'r asiantiaid hynny heb fod angen eich penodi'n swyddogol. Caiff is-asiantiaid hefyd fod yn bresennol yn ystod y bleidlais a'r cyfrif, ond dim ond yn lle'r asiant etholiadol.

1.171 Gellir penodi unrhyw nifer o asiantiaid pleidleisio i fod yn bresennol ymhob gorsaf bleidleisio, ond dim ond un asiant pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd unigol neu restr plaid all fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg. Gellir penodi asiant pleidleisio i fod yn bresennol mewn mwy nag un orsaf bleidleisio.

1.172 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (neu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol) yn nodi uchafswm nifer yr asiantiaid pleidleisiau post a chyfrif y gallwch eu penodi ar gyfer y rhanbarth. Caiff ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr rhestr plaid benodi'r un nifer. Yn y cyfrif, oni fydd amgylchiadau arbennig, ni fydd nifer yr asiantiaid cyfrif a ganiateir i bob ymgeisydd unigol ac ymgeisydd rhestr plaid yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif (h.y. y staff hynny a gyflogir i gyfrif) â nifer yr ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr rhestr plaid.

1.173 Rhaid i'r cais i benodi'r asiantiaid hyn gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol. Rhaid iddo gynnwys enwau a chyfeiriadau'r bobl a benodir. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol yn darparu ffurflenni ar gyfer hyn, neu gallwch ddod o hyd i ffurflenni penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif ar wefan y Comisiwn.

1.174 Bydd y dyddiad cau ar gyfer penodi'r asiantiaid hyn yn dibynnu ar y broses y byddant yn bresennol ynddi. Rhaid i

asiantiaid pleidleisio a chyfrif gael eu penodi heb fod yn hwyrach na'r pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Fodd bynnag, nid oes ond rhaid i'r ffurflenni penodi ar gyfer asiantiaid pleidleisiau post gael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol erbyn yr amser a bennwyd ar gyfer y digwyddiad agor pleidleisiau post y maent am fod yn bresennol ynddo. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd i chi cyn i bob sesiwn agor pleidleisiau post ddechrau.

1.175 Os bydd asiant yn marw neu'n methu â gweithredu, cewch benodi asiant arall yn ei le drwy gyflwyno'r ffurflen penodiad berthnasol i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol. Rhaid i unrhyw benodiad newydd o dan yr amgylchiadau hyn gael ei wneud yn ddi-oed.

1.176 Rhoddir rhagor o wybodaeth am yr hyn y caiff asiantiaid ei wneud a'r hyn na chaiff asiantiaid ei wneud, a'r hyn y gallant ddisgwyl ei weld mewn sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif, yn Rhan 5: Eich hawl i fod yn bresennol mewn digwyddiadau etholiadol allweddol.

Marwolaeth ymgeisydd

1.177 Os bydd ymgeisydd yn marw yn ystod cyfnod yr etholiad, gweler paragraff **1.183** i gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd hyn yn effeithio ar yr etholiad.

Gwybodaeth atodol

Enw(au) cyffredin

1.178 Os bydd ymgeisydd - p'un a yw'n ymgeisydd unigol neu'n ymgeisydd ar restr plaid - yn defnyddio enw cyffredin sy'n wahanol i'w enw gwirioneddol, gall ofyn am gael defnyddio ei enw(au) cyffredin yn hytrach na'i enw gwirioneddol. Gall ymgeiswyr ofyn am gael defnyddio enw cyntaf a/neu gyfenw cyffredin. Er enghraifft, efallai mai ‘Andy’ yw'r enw cryno a ddefnyddir ar gyfer ymgeisydd, yn lle ei enw llawn cyntaf sef ‘Andrew’. Os felly, caiff ysgrifennu ‘Andy’ yn y blwch enw cyntaf cyffredin ar y papur enwebu os byddai'n well ganddo fod yr enw hwnnw'n ymddangos ar y papur pleidleisio.

1.179 Fodd bynnag, ni chaiff ddefnyddio ei enw cyntaf fel enw cyffredin fel mai dim ond ei enw cyntaf a'i gyfenw sy'n ymddangos ar bapur pleidleisio, a thrwy hynny ddileu ei enw canol. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir bod enw cyffredin yn un sy'n wahanol i unrhyw enw cyntaf neu gyfenw arall. Mae hyn yn golygu na all enw cyntaf ar ei ffurf wreiddiol gael ei ddefnyddio fel enw cyffredin. Os bydd ymgeisydd yn dymuno defnyddio enw cyntaf a/neu gyfenw cyffredin yna rhaid iddynt fod yn wahanol i'w enw llawn fel y mae'n ymddangos ar y ffurflen enwebu. Er enghraifft, yn achos Andrew John Smith, ni allai ddefnyddio Andrew Smith fel ei enw cyffredin, er y gallai ddefnyddio Andy Smith (os mai Andy oedd ei enw cyffredin).

1.180 Gall ymgeisydd wneud cais i ddefnyddio enw cyntaf cyffredin, cyfenw, neu’r ddau.

1.181 Caiff ymgeiswyr hefyd ddefnyddio blaenlythrennau fel rhan o'u henw cyffredin os cânt eu defnyddio'n fynych mewn perthynas â nhw.

1.182 Byddai’r enwau cyffredin wedyn yn ymddangos ar y canlynol:

- y datganiad personau (a phleidiau) a enwebwyd a'r hysbysiad pleidlais
- o ran ymgeiswyr rhanbarthol unigol, y papurau pleidleisio

1.183 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol drosglwyddo'r enw cyffredin a roddir ar y ffurflen enwebu i'r datganiad o'r sawl a enwebwyd oni bai ei fod o'r farn bod yr enw cyffredin yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu ei fod yn anweddus neu'n sarhaus. Os na chaniateir yr enw(au), bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ysgrifennu at yr ymgeisydd gan nodi'r rheswm dros hynny. Yn yr achosion hynny, defnyddir enw gwirioneddol yr ymgeisydd.

1.184 Os caiff y blwch ar gyfer enw cyntaf neu gyfenw cyffredin ar y ffurflen enwebu ei adael yn wag, yna bydd enw cyntaf neu gyfenw gwirioneddol yr ymgeisydd, yn dibynnu ar ba flwch ar gyfer enwau cyffredin a adawyd yn wag, yn cael ei ddefnyddio.

1.185 Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir ar y ffurflen enwebu. Felly, os bydd yr ymgeisydd yn dewis rhoi enw cyffredin, rhaid iddo sicrhau ei fod yn enw cyntaf neu'n gyfenw cyffredin ar ei gyfer.

Marwolaeth ymgeisydd

1.186 Os bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cael prawf cyn i'r canlyniadau gael eu datgan bod ymgeisydd (p'un a'i fod ar restr ranbarthol plaid gofrestredig neu'n ymgeisydd unigol) wedi marw, bydd effaith y farwolaeth ar yr etholiad yn dibynnu ar b'un a yw'n peri i'r etholiad fod yn un diwrthwynebiad.

Os bydd yr etholiad bellach yn un diwrthwynebiad

1.186 Os bydd y farwolaeth yn peri i'r etholiad fod yn un diwrthwynebiad, caiff yr etholiad ei atal ar unwaith. Os bydd y bleidlais wrthi'n mynd rhagddi neu'r pleidleisiau wrthi'n cael eu cyfrif, bydd y broses honno'n cael ei hatal. Cynhelir etholiad newydd.

Os bydd yr etholiad yn un a ymleddir o hyd

1.188 Os na fydd y farwolaeth yn peri i'r etholiad fod yn un diwrthwynebiad, bydd yr etholiad yn parhau fel arfer ac ni fydd y farwolaeth yn effeithio ar ddilysrwydd y canlyniad nac ar etholiad unrhyw aelod rhanbarthol. Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gymryd camau rhesymol i gyhoeddi enw'r ymgeisydd a fu farw a ph'un a oedd yn ymgeisydd unigol neu'n ymgeisydd rhestr plaid (ac os felly rhaid hefyd roi enw'r blaid). Rhaid iddo hefyd ystyried p'un a ddylid cyhoeddi enw'r ymgeisydd a fu farw drwy roi hysbysiadau y tu allan i orsafoedd pleidleisio.

1.189 Bydd unrhyw un sydd â'r hawl i fod yn bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio neu yn y cyfrif fel asiant etholiadol, asiant pleidleisio, asiant cyfrif neu westai i'r ymgeisydd a fu farw yn colli ei hawl i fod yn bresennol yn y prosesau hynny ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gael prawf bod yr ymgeisydd wedi marw.

1.190 Ad-delir ernes ymgeisydd rhanbarthol unigol a fu farw.